

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 Rhif. (C.)

Y GYMRAEG, CYMRU

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc.1) yn gwneud darpariaeth ynglŷn â phennu safonau ymddygiad yn ymwneud â'r Gymraeg ("safonau"). Mae'r rhain yn disodli'r system o gynlluniau iaith Gymraeg y darperir ar eu cyfer yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993.

- 5 Mae adran 26 o Fesur 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau, ac mae adran 39 yn eu galluogi i ddarparu bod safon yn benodol gymwys i berson drwy awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad i'r person hwnnw sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safon ("hysbysiad cydymffurfio").
- 10 Mae'r Rheoliadau yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad Gweinidogion Cymru, cyngorau sir a chyngorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol (ac fe gyfeirir at y rhain yn y Rheoliadau fel "cyrff"). Mae'r Rheoliadau hefyd yn awdurdodi'r Comisiynydd (yn ddarostyngedig i eithriadau penodol) i roi hysbysiad cydymffurfio, mewn perthynas â safonau a bennir gan y Rheoliadau, i'r cyrff hyn.

15

Yn unol ag adran 44 o Fesur 2011, caiff y Comisiynydd (drwy hysbysiad cydymffurfio) ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r safonau sy'n benodol gymwys iddo. I adlewyrchu hynny, mae'r safonau a bennir yn y Rheoliadau wedi'u geirio ar ffurf naratif ail berson, hynny yw ar ffurf "rhaid i chi" (lle mae "chi" yn golygu'r corff perthnasol ymhob achos).

Gan ddefnyddio'r hyblygrwydd a roddir gan adran 44 o Fesur 2011, mae modd i'r Comisiynydd (petai'n dymuno gwneud hynny, a bod hynny'n rhesymol ac yn gymesur) ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un safon mewn rhai amgylchiadau, a safon arall mewn amgylchiadau eraill. Er enghraifft, os oes un safon yn benodol gymwys i gorff ar bwnc penodol, gall y

5 Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon honno mewn rhai amgylchiadau, ond nid mewn amgylchiadau eraill, neu mewn rhai ardaloedd yn unig. Yn yr un modd os oes dwy neu ragor o safonau yn ymwneud ag ymddygiad penodol (er enghraifft, safonau 8 i 11 ynghylch ateb galwadau ffôn), gall y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i gorff

10 gydymffurfio ag un o'r safonau hynny'n unig, neu â gwahanol safonau ar adegau gwahanol, mewn amgylchiadau gwahanol, neu mewn ardaloedd gwahanol, fel sy'n addas i'r corff. Nid oes rheidrwydd ar y Comisiynydd felly ei gwneud yn ofynnol i bob corff gydymffurfio â phob safon.

Yn unol ag adran 46 o Fesur 2011, rhaid i'r hysbysiad cydymffurfio a roddir i gorff ddatgan y diwrnod gosod, neu'r diwrnodau gosod; hynny yw, y diwrnod neu'r diwrnodau y daw'n ofynnol

15 i'r corff gydymffurfio â'r safon (neu i gydymffurfio â safon mewn modd penodol). Gan ddefnyddio'r hyblygrwydd a roddir gan adran 46, gall y Comisiynydd osod diwrnod gosod buan ar gyfer cydymffurfio â rhai safonau (cyn belled â bod hynny o leiaf 6 mis ar ôl diwrnod rhoi'r hysbysiad cydymffurfio perthnasol i'r corff), neu ddyddiad gosod ymhellach i'r dyfodol (er enghraifft ar gyfer cydymffurfio â safonau sy'n fwy heriol).

20 Mae **Atodlen 1** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau cyflenwi gwasanaethau**. Mae adran 28 o Fesur 2011 yn darparu mai ystyr "safon cyflenwi gwasanaethau" yw safon sy'n ymwneud â gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau, ac y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r

25 Saesneg, pan gyflawnir y gweithgaredd hwnnw. Ystyr "gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau" yw bod person yn cyflenwi gwasanaethau i berson arall, neu yn delio ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau i'r person hwnnw neu i drydydd person.

Pan fydd safon a bennir yn y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddeunydd ysgrifenedig

30 gael ei arddangos neu ei ddarparu yn Gymraeg, neu i wasanaeth gael ei ddarparu yn Gymraeg, nid yw hynny'n golygu o reidrwydd bod yn rhaid i'r deunydd hwnnw gael ei arddangos neu ei ddarparu yn Gymraeg yn unig, na bod yn rhaid i'r gwasanaeth hwnnw gael ei ddarparu yn Gymraeg yn unig (oni bai bod hynny'n cael ei nodi'n benodol).

35 Mae **Atodlen 2** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau llunio polisi**. Mae adran 29 o Fesur 2011 yn darparu mai ystyr "safon llunio polisi" yw safon sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ac y bwriedir iddi sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried un neu ragor o'r canlynol –

- 40
- (a) pa effeithiau, os o gwbl, (a ph'un yw'r effeithiau'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
 - (b) sut y gellid gwneud y penderfyniad fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

- (c) sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5

Mae **Atodlen 3** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau gweithredu**. Mae adran 30 o Fesur 2011 yn darparu mai ystyr "safon gweithredu" yw safon sy'n ymwneud â swyddogaethau, neu fusnes neu ymgymeriad arall ("gweithgareddau perthnasol") person ("A"), ac y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg —

10

- (a) gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,
- (b) gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu
- (c) gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.

15

Mae **Atodlen 4** i'r Rheoliadau yn pennu **safon hybu**. Mae adran 31 o Fesur 2011 yn darparu mai ystyr "safon hybu" yw safon (yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd) y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.

20

Mae **Atodlen 5** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau cadw cofnodion**. Mae adran 32 o Fesur 2011 yn darparu mai ystyr "safon cadw cofnodion" yw safon sydd yn ymwneud a chadw cofnodion ynghylch y safonau eraill a bennir (yn y Rheoliadau), cofnodion ynghylch cwynion mewn perthynas â chydymffurfiaeth gyda safonau eraill, a chofnodion ynghylch cwynion eraill mewn perthynas â'r Gymraeg.

25

Mae **Atodlen 6** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau sy'n ymdrin â materion atodol**. Mae'r rhain yn fathau penodol o safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau hybu a safonau cadw cofnodion sy'n ymdrin â'r materion y cyfeirir atynt yn adran 27(4) o Fesur 2011 (sy'n atodol i'r materion hynny yr ymdrinnir â hwy yn Atodlenni 1 i 5).

30

35

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 Rhif. (C.)

Y GYMRAEG, CYMRU

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015

Gwnaed

Yn dod i rym

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 26, 27, 39 a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc.1), ac wedi derbyn cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 150(2) o'r Mesur hwnnw, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn—

1 Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau i rym ar [].

(3) Mae'r Rheoliadau yn gymwys i'r canlynol—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) cyngorau sir a chyngorau bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(c) awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru.

(4) Yn y safonau a bennir o dan Reoliad 2—

ystyr "corff" yw Gweinidogion Cymru, cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol neu awdurdod Parc Cenedlaethol;

ystyr "aelod o staff" yw cyflogai corff neu unigolyn sy'n gweithio i gorff;

(5) Yn y safonau a bennir yn Atodlenni 1, 3, 4, 5 and 6, ystyr "person" yw aelod o'r cyhoedd (ac nid yw'n cynnwys corff o bersonau corfforaethol neu anghorfforaethol).

- (6) Diffinnir nifer o eiriau ac ymadroddion eraill at ddibenion dehongli'r safonau yn Rhan 3 o Atodlenni 1 a 3, yn Rhan 2 o Atodlen 2, ac yn Rhan 6 o Atodlen 6.

2 Safonau

- (1) Mae Atodlen 1 yn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau.
- (2) Mae Atodlen 2 yn pennu safonau llunio polisi.
- (3) Mae Atodlen 3 yn pennu safonau gweithredu.
- (4) Mae Atodlen 4 yn pennu safonau hybu.
- (5) Mae Atodlen 5 yn pennu safonau cadw cofnodion.
- (6) Mae Atodlen 6 yn pennu safonau sy'n ymdrin â materion sy'n atodol i'r materion yr ymdrinnir â hwy yn y safonau a bennir yn Atodlenni 1 i 5 ac, yn benodol –
- (a) mae Rhan 1 yn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymdrin â materion atodol;
- (b) mae Rhan 2 yn pennu safonau llunio polisi sy'n ymdrin â materion atodol;
- (c) mae Rhan 3 yn pennu safonau gweithredu sy'n ymdrin â materion atodol;
- (d) mae Rhan 4 yn pennu safonau hybu sy'n ymdrin â materion atodol;
- (e) mae Rhan 5 yn pennu safonau cadw cofnodion sy'n ymdrin â materion atodol;
- (f) mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli'r safonau atodol;
- (g) mae Rhan 7 yn gwneud darpariaeth atodol.

3 Safonau sy'n benodol gymwys

- (1) Mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i unrhyw un neu ragor o'r personau a restrir yn Rheoliad 1(3) fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw neu i'r personau hynny gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r safonau a bennir o dan Reoliad 2.
- (2) Ond ni awdurdodir y Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio –
- (a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â safon 143 a safon 144 (safon hybu);
- (b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyngorau sir, cyngorau bwrdeistref sirol neu awdurdodau Parciau Cenedlaethol gydymffurfio â safonau 93 i 95 (comisiynu ymchwil er mwyn ffurfio polisi).

Dyddiad

Prif Weinidog Cymru

ATODLEN 1
(Rheoliad 2(1))

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

RHAN 1

Y SAFONAU

1 Safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff.

(1) Pan fo corff yn ateb gohebiaeth.

10 **Safon 1:** *Pan fyddwch yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg wrth berson, rhaid i chi ateb yr ohebiaeth yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.*

(2) Pan fo corff yn gohebu.

(a) Pan fo corff yn gohebu gydag un person.

15 **Safon 2:** *Pan fyddwch yn gohebu gyda pherson am y tro cyntaf, rhaid i chi ofyn i'r person a fyddai'n dymuno derbyn gohebiaeth gennych yn Gymraeg, ac os yw'r person yn ymateb i ddweud y byddai'n dymuno hynny rhaid i chi –*

(a) *cadw cofnod o'i ddymuniad,*

(b) *gohebu yn Gymraeg gyda'r person hwnnw o hynny ymlaen, a*

20 (c) *anfon unrhyw ffurflen a anfonir gennych at y person hwnnw yn Gymraeg.*

(b) Pan fo corff yn gohebu gyda mwy nag un person sy'n byw ar yr un aelwyd.

Safon 3: *Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth at ddau berson sy'n byw ar yr un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid i chi ofyn i'r personau hynny a fyddent yn dymuno derbyn gohebiaeth gennych yn Gymraeg, ac os –*

25 (a) *yw'r ddau berson yn ymateb i ddweud y byddent yn dymuno hynny, rhaid i chi gadw cofnod o'u ddymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth at y ddau berson hynny;*

(b) *oes un o'r personau hynny (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud y byddai'n dymuno hynny, rhaid i chi gadw cofnod o ymateb y person hwnnw, a chynnwys fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan yn gohebu gyda'r ddau berson hynny.*

30 (c) *Pan fo corff yn gohebu gyda sawl person (er enghraifft, pan fydd yn anfon cylchlythyr, neu'n anfon yr un llythyr at nifer o gartrefi).*

Safon 4: *Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid i chi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag yr anfonir unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.*

(3) Safonau cyffredinol ynghylch corff yn gohebu.

Safon 5: *Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno derbyn gohebiaeth gennych yn Gymraeg rhaid i chi gynnwys fersiwn Gymraeg pan yn gohebu gyda'r person hwnnw.*

- Safon 6:** Pan yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid i chi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu cynnwys ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).
- 5 **Safon 7:** Rhaid i chi ddatgan –
- (a) mewn gohebiaeth, a
- (b) mewn cyhoeddiadau neu hysbysiadau swyddogol sydd yn gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch.
- 10 eich bod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
- 2 Safonau ynghylch galwadau ffôn at gorff a chan gorff.
- 15 (1) Galwadau ffôn i brif rif ffôn y corff ac i unrhyw linellau cymorth neu ganolfannau galwadau.
- Safon 8:** Pan fyddwch yn derbyn galwad ffôn i'ch prif rif ffôn (neu i un o'ch prif rifau ffôn), neu i unrhyw linell gymorth neu ganolfan alwadau, rhaid i chi gyfarch y galwr yn Gymraeg.
- Safon 9:** Pan fyddwch yn derbyn galwad ffôn i'ch prif rif ffôn (neu i un o'ch prif rifau ffôn), neu i unrhyw linell gymorth neu ganolfan alwadau, rhaid i chi hysbysu'r galwr fod modd iddo gael gwasanaeth Cymraeg.
- 20 **Safon 10:** Pan fyddwch yn derbyn galwad ffôn i'ch prif rif ffôn (neu i un o'ch prif rifau ffôn), neu i unrhyw linell gymorth neu ganolfan alwadau, rhaid i chi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r galwr yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad at aelod o staff sy'n medru delio â'r alwad yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol).
- 25 **Safon 11:** Pan fyddwch yn derbyn galwad ffôn i'ch prif rif ffôn (neu i un o'ch prif rifau ffôn), neu i unrhyw linell gymorth neu ganolfan alwadau, a bod y galwr yn dymuno gwasanaeth yn Gymraeg, rhaid i chi ddelio â'r alwad yn Gymraeg hyd nes y bydd yn angenrheidiol ei throsglwyddo i aelod o staff sy'n medru cynnig gwasanaeth ar bwnc penodol i'r galwr nad oes aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael i'w gynnig.
- 30 **Safon 12:** Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Safon 13:** Rhaid i chi ddarparu'r un rhif ffôn ar gyfer eich prif rif neu rifau ffôn, llinellau cymorth a gwasanaethau canolfannau galwadau sy'n cynnig gwasanaethau yn Gymraeg â'r rhif ffôn sy'n cael ei ddarparu gennych ar gyfer gwasanaethau cyfatebol yn Saesneg.
- 35 **Safon 14:** Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid i chi nodi (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu dros y ffôn.
- Safon 15:** Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn yn Saesneg, rhaid i chi sicrhau bod gennych ddangosyddion perfformiad cyfatebol ar gyfer delio â galwadau yn Gymraeg.
- 40

Safon 16: Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn hysbysu galwyr, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.

Safon 17: Pan na fydd gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar un o'ch llinellau cymorth neu yn un o'ch canolfannau galwadau, rhaid i chi roi gwybod i'r galwr (p'un ai drwy gyfrwng neges wedi'i hawtomeiddio ai peidio) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.

(2) Galwadau ffôn at adrannau, ac at aelodau unigol o staff corff.

Safon 18: Pan fydd person yn ffonio un o'ch adrannau ar rif uniongyrchol, a bod y person hwnnw'n dymuno derbyn gwasanaeth Cymraeg, rhaid i chi ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

Safon 19: Pan fydd person yn ffonio unrhyw un o'ch rhifau ffôn (gan gynnwys rhifau ffôn uniongyrchol aelodau o'ch staff), a bod y person hwnnw'n dymuno derbyn gwasanaeth Cymraeg, rhaid i chi ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg yn ei gyfanrwydd os yw'r galwr yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad at aelod arall o staff sy'n medru cynnig y gwasanaeth yn Gymraeg os yn angenrheidiol).

Safon 20: Pan fyddwch yn derbyn unrhyw alwad ffôn i rif uniongyrchol (boed yn rif uniongyrchol adran, neu rif uniongyrchol aelod o staff), rhaid i chi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y galwr.

(3) Galwadau ffôn a wneir gan gorff.

Safon 21: Pan fyddwch yn ffonio person am y tro cyntaf, rhaid i chi ofyn i'r person a fyddai'n dymuno derbyn galwadau ffôn gennych yn Gymraeg; ac os yw'r person yn dweud y byddai'n dymuno hynny, rhaid i chi gadw cofnod o'i ymateb, a chynnal galwadau ffôn a wneir at y person hwnnw o hynny ymlaen yn Gymraeg.

(4) Corff yn delio gyda galwadau ffôn drwy system wedi'i hawtomeiddio.

Safon 22: Rhaid i unrhyw system ffôn wedi'i hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r system gyfan yn Gymraeg.

Safonau ynghylch cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.

(1) Cyfarfodydd rhwng corff ac un person gwahoddedig.

Safon 23: Pan fyddwch yn gwahodd un person i gyfarfod, rhaid i chi gynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg; ac os yw'r person hwnnw'n rhoi gwybod i chi ei fod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid i chi gynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).

Safon 24: Pan fyddwch yn gwahodd un person i gyfarfod, rhaid i chi ofyn i'r person a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a rhoi gwybod iddo y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y pwrpas hwnnw.

Safon 24A: Pan fyddwch wedi gwahodd un person i gyfarfod, a bod y person hwnnw wedi rhoi gwybod i chi ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad yw'n bosib ei gynnal yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).

- Safon 24B:** Pan fyddwch wedi gwahodd un person i gyfarfod, a bod y person hwnnw wedi rhoi gwybod i chi ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad yw'n bosib ei gynnal yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).
- 5 **Safon 25:** Pan fyddwch yn gwahodd un person i gyfarfod, a bod a wnelo'r cyfarfod hwnnw â buddiant personol neu lesiant y person hwnnw, rhaid i chi –
- (a) gofyn i'r person hwnnw a fyddai'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, a
- 10 (b) os yw'r person yn rhoi gwybod i chi y byddai'n dymuno hynny, rhaid i chi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).
- Safon 26:** Pan fyddwch yn gwahodd un person i gyfarfod, a bod a wnelo'r cyfarfod â buddiant personol neu lesiant y person hwnnw, rhaid i chi ofyn i'r person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a rhoi gwybod iddo y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y pwrpas hwnnw.
- 15 **Safon 26A:** Rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfod –
- (a) pan fydd y cyfarfod ynghylch buddiant personol neu lesiant person a wahoddwyd, a
- 20 (b) pan fydd y person hwnnw wedi rhoi gwybod i chi ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;
- os nad yw'n bosib cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.
- Safon 26B:** Rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu olynol o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfod –
- 25 (a) pan fydd y cyfarfod ynghylch buddiant **personol** neu lesiant person a wahoddwyd, a
- (b) pan fydd y person hwnnw wedi rhoi gwybod i chi ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;
- os nad yw'n bosib cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.
- 30 (2) Cyfarfodydd rhwng corff a mwy nag un person gwahoddedig.
- Safon 27:** Pan fyddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â buddiant personol neu lesiant un neu fwy o'r unigolion a wahoddir), rhaid i chi ofyn i bob person a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.
- Safon 27A:** Pan fyddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% o'r gwahoddedigion wedi rhoi gwybod i chi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.
- 35 **Safon 27B:** Pan fyddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 20% o'r gwahoddedigion wedi rhoi gwybod i chi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.
- 40

- Safon 27C:** Pan fyddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 30% o'r gwahoddedigion wedi rhoi gwybod i chi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.
- 5 **Safon 27D:** Pan fyddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi rhoi gwybod i chi eu bod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid i chi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).
- Safon 27E:** Pan fyddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, abod pawb a gafodd wahoddiad wedi rhoi gwybod i chi eu bod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.
- 10 **Safon 28:** Pan fyddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod a wnelo'r cyfarfod hwnnw â buddiant neu lesiant personol un neu ragor o'r gwahoddedigion, rhaid i chi –
- 15 (a) gofyn i'r person hwnnw (neu ofyn i'r personau hynny) a yw (neu a ydynt) yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, a
- (b) os yw'r person hwnnw, neu os yw pob un o'r personau hynny, yn rhoi gwybod i chi ei fod (neu eu bod) yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid i chi gynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).
- Safon 29:** Pan fyddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod a wnelo'r cyfarfod hwnnw â buddiant neu lesiant personol un neu ragor o'r gwahoddedigion, rhaid i chi –
- 20 (a) gofyn i'r person hwnnw (neu ofyn i'r personau hynny) a yw (neu a ydynt) yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a
- (b) rhoi gwybod i'r person (neu i'r personau) y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y pwrpas hwnnw.
- 25 **Safon 29A:** Rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfod –
- 30 (a) pan fydd mwy nag un person wedi eu gwahodd i'r cyfarfod,
- (b) pan fydd y cyfarfod ynghylch buddiant neu lesiant personol un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, a
- (c) pan fydd un (neu ragor) o'r unigolion hynny wedi rhoi gwybod i chi ei fod (neu eu bod) yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;
- os nad yw'n bosib cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

Safon 29B: Rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu olynol o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfod –

(a) pan fydd mwy nag un person wedi eu gwahodd i'r cyfarfod,

(b) pan fydd y cyfarfod ynghylch buddiant neu lesiant personol un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, a

(c) pan fydd un (neu ragor) o'r unigolion hynny wedi rhoi gwybod i chi ei fod (neu eu bod) yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;

os nad yw'n bosib cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

4 Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.

Safon 30: Pan fyddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid i chi ei gwneud yn glir ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu ac ar unrhyw wahoddiad iddo fod croeso i unrhyw un ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

Safon 31: Pan fyddwch yn dyroddi gwahoddiadau i gyfarfod a drefnir gennych sy'n agored i'r cyhoedd rhaid i chi eu dyroddi yn Gymraeg.

Safon 32: Pan fyddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod a drefnir gennych sy'n agored i'r cyhoedd –

(a) rhaid i chi ofyn i bob person a wahoddir i siarad a fyddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a

(b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn rhoi gwybod i chi ei fod (neu eu bod) yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid i chi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael at y pwrpas hwnnw (oni bai ei bod yn ymarferol i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg heb y gwasanaeth hwnnw).

Safon 33: Pan fyddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i chi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid i chi roi gwybod i bawb sy'n bresennol –

(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a

(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

Safon 34: Pan fyddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i chi sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid i chi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

5 Safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.

Safon 35: Pan fyddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu digwyddiad cyhoeddus yn ei gyfanrwydd, rhaid i chi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hyrwyddo'r digwyddiad (er enghraifft, wrth hysbysebu'r digwyddiad ac wrth roi cyhoeddusrwydd iddo).

- 5 **Safon 36:** *Pan fydd digwyddiad cyhoeddus a drefnwyd gennych neu a ariannwyd yn ei gyfanrwydd gennych yn cael ei gynnal, rhaid i chi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, o ran y gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n mynychu'r digwyddiad, o ran arwyddion a arddangosir fel rhan o'r digwyddiad, ac o ran cyhoeddiadau sain a wneir ynddo).*
- 6 Safon ynghylch cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.
- 10 **Safon 37:** *Pan fyddwch yn cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu, rhaid ei gynhyrchu yn Gymraeg, ac os byddwch yn cynhyrchu'r deunydd cyhoeddusrwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg rhaid i chi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.*
- 15 7 Safonau ynghylch arddangos deunydd yn gyhoeddus.
- Safon 38:** *Pan fyddwch yn arddangos deunydd yn gyhoeddus rhaid i chi ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid i chi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o ddeunydd yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg.*
- 20 **Safon 39:** *Pan fyddwch yn arddangos deunydd mewn arddangosfa gyhoeddus sydd wedi ei threfnu gennych rhaid i chi arddangos y deunydd yn Gymraeg, a rhaid i chi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o ddeunydd yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg.*
- 8 Safonau ynghylch corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.
- 25 **Safon 40:** *Rhaid i chi gynhyrchu unrhyw ddogfennau a gynhyrchir gennych at ddefnydd y cyhoedd yn Gymraeg.*
- Safon 41:** *Pan fyddwch yn cynhyrchu'r dogfennau canlynol rhaid i chi eu cynhyrchu yn Gymraeg –*
- 30 (a) *agendâu, cofnodion a phapurau eraill (sydd ar gael i'r cyhoedd) mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet y corff;*
- (b) *agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd.*
- Safon 42:** *Pan fyddwch yn cynhyrchu trwydded neu dystysgrif, rhaid i chi ei chynhyrchu yn Gymraeg.*
- 35 **Safon 43:** *Pan fyddwch yn cynhyrchu unrhyw lyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, rhaid i chi ei gynhyrchu, neu ei chynhyrchu, yn Gymraeg.*
- Safon 44:** *Pan fyddwch yn cynhyrchu'r dogfennau canlynol, a'u bod ar gael i'r cyhoedd, rhaid i chi eu cynhyrchu yn Gymraeg –*
- 40 (a) *polisiau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol;*
- (b) *canllawiau a chodau ymarfer;*
- (c) *papurau ymgynghori.*

- Safon 45:** *Pan fyddwch yn cyhoeddi unrhyw reolau sy'n gymwys i'r cyhoedd, rhaid i chi eu cyhoeddi yn Gymraeg.*
- Safon 46:** *Pan fyddwch yn rhyddhau unrhyw ddatganiad i'r wasg rhaid i chi ei ryddhau yn Gymraeg, ac os oes fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddatganiad, rhaid i chi ryddhau'r ddwy fersiwn ar yr un pryd.*
- Safon 47:** *Pan fyddwch yn cynhyrchu unrhyw ddogfen at ddefnydd y cyhoedd, a lle nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol i chi ei chynhyrchu yn Gymraeg, rhaid i chi ei chynhyrchu yn Gymraeg –*
- (a) *os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn Gymraeg, neu*
- (b) *os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn Gymraeg.*
- Safon 48:** *Pan fyddwch yn cynhyrchu dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i chi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.*
- Safon 49:** *Pan fyddwch yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid i chi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.*

9 Safonau ynghylch corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.

- Safon 50:** *Pan fyddwch yn cynhyrchu unrhyw ffurflen at ddefnydd y cyhoedd, rhaid i chi ei chynhyrchu yn Gymraeg.*
- Safon 50A:** *Pan fyddwch yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid i chi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.*
- Safon 50B:** *Pan fyddwch yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid i chi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid i chi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft o ran unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen ac o ran yr amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).*
- Safon 51:** *Pan fyddwch yn mewnosod manylion ymlaen llaw ar ffurflen Gymraeg (er enghraifft, cyn ei hanfon allan at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r manylion hynny neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid i chi sicrhau bod y manylion a fewnosodir gennych yn cael ei fewnosod yn Gymraeg.*

10 Safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.

(1) Gwefannau a gyhoeddir gan gorff.

Safon 52: *Rhaid i chi sicrhau –*

- (a) *bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,*
- (b) *bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac*
- (c) *nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.*

Safon 53: Rhaid i chi sicrhau –

- (a) bod testun tudalen gartref eich gwefan ar gael yn Gymraeg,
- (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar dudalen gartref eich gwefan (neu, lle'n berthnasol, bod eich tudalen gartref Gymraeg) yn gweithredu'n llawn, ac
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran tudalen gartref eich gwefan.

Safon 54: Bob tro y byddwch yn cyhoeddi tudalen newydd ar eich gwefan neu'n diwygio tudalen, rhaid i chi sicrhau –

- (a) bod testun y dudalen honno ar gael yn Gymraeg,
- (b) bod unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dudalen yn gweithredu'n llawn, ac
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran testun y dudalen honno.

Safon 55: Pan fydd gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid i chi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

Safon 56: Rhaid i chi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.

(2) Apiau corff

Safon 57: Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.

11 Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff.

Safon 58: Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys unrhyw arwydd dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (boed ar arwydd sy'n arddangos y testun hwnnw yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); a phan fydd yr un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg rhaid i chi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Safon 59: Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys unrhyw arwydd dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cynnwys yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i chi osod y testun Cymraeg fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safon 60: Rhaid i chi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

12 Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.

Safon 61: Rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth dderbyn ymwelwyr i'ch derbynfa.

- Safon 62:** *Pan fyddwch yn trefnu ymweliad neu apwyntiad i berson ymlaen llaw sy'n golygu bod y person yn dod i'ch derbynfa, rhaid i chi ofyn i'r person a fyddai'n dymuno derbyn gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg (oni bai eich bod yn gwybod eisoes beth yw ei ddewis iaith).*
- 5 **Safon 62A:** *Rhaid i chi ddarparu gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb yn Gymraeg i berson pan fyddwch wedi trefnu ymweliad neu apwyntiad ymlaen llaw i'r person hwnnw, a –*
- (a) *bod y person wedi dweud wrthyhych ymlaen llaw y byddai'n dymuno gwasanaeth Cymraeg, neu*
- (b) *eich bod yn gwybod y byddai'r person hwnnw'n dymuno derbyn gwasanaeth Cymraeg.*
- 10 **Safon 63:** *Pan na fydd gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb ar gael gennych yn Gymraeg, rhaid i chi sicrhau bod gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg ar gael i ymwelwyr dros y ffôn yn eich derbynfa.*
- Safon 64:** *Pan na fydd gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb ar gael yn Gymraeg, rhaid i chi sicrhau bod aelod o staff ar gael i fynd i'ch derbynfa pan fo ymwelydd yn galw ac yn dymuno cael gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg.*
- 15 **Safon 65:** *Rhaid i chi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.*
- Safon 66:** *Rhaid i chi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n medru cynnig gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.*
- 20
- 13 Safonau ynghylch corff yn gwneud hysbysiadau swydddogol.
- Safon 67:** *Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swydddogol rhaid i chi sicrhau ei fod yn cael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid i chi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.*
- 25 **Safon 68:** *Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swydddogol sy'n cynnwys y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, rhaid i chi osod y testun Cymraeg fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.*
- 30
- 14 Safonau ynghylch corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.
- Safon 69:** *Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfennau sydd yn ymwneud â cheisiadau am grant, rhaid i chi eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid i chi beidio a thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw ddogfennau yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.*
- 35 **Safon 70:** *Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid i chi ddatgan yn y gwahoddiad bod croeso i ymgeisydd wneud cais yn Gymraeg ac na fydd cais yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais yn Saesneg.*
- Safon 70A:** *Rhaid i chi beidio â thrin cais am grant a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau, ac o ran amseriad hysbysu ymgeiswyr ynghylch penderfyniadau).*
- 40

- Safon 71:** Pan fyddwch yn derbyn cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais, rhaid i chi gynnig cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg ac, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid i chi gynnwyl y cyfweiliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).
- 5 **Safon 72:** Pan fyddwch yn derbyn cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais –
- (a) rhaid i chi gynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd fedru defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a
- 10 (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, rhaid i chi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y pwrpas hwnnw (os nad yw'n bosib cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg fel arall).
- Safon 73:** Pan fyddwch wedi dod i benderfyniad ynghylch cais am grant a wnaed yn Gymraeg rhaid i chi roi gwybod i'r ymgeisydd beth yw'r penderfyniad hwnnw yn Gymraeg.
- 15 15 Safonau ynghylch corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.
- Safon 74:** Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid i chi eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid i chi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiadau yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.
- 20 **Safon 75:** Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid i chi ddatgan yn y gwahoddiad bod croeso i dendrwyr gyflwyno tendr yn Gymraeg ac na fydd tendr yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr yn Saesneg.
- Safon 75A:** Rhaid i chi beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac o ran amseriad hysbysu tendrwyr ynghylch penderfyniadau).
- 25 **Safon 76:** Pan fyddwch yn derbyn tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweld â thendwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr, rhaid i chi gynnig cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg ac, os yw'r tendwr yn dymuno hynny, rhaid i chi gynnwyl y cyfweiliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).
- 30 **Safon 77:** Pan fyddwch yn derbyn tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweld â thendwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr –
- (a) rhaid i chi gynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a
- 35 (b) os yw'r tendwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, rhaid i chi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y pwrpas hwnnw (os nad yw'n bosib cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg fel arall).
- Safon 78:** Pan fyddwch wedi dod i benderfyniad ynghylch tendr a gyflwynwyd yn Gymraeg rhaid i chi roi gwybod i'r tendwr beth yw'r penderfyniad hwnnw yn Gymraeg.

16 Safonau ynghylch codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.

5 **Safon 79:** Rhaid i chi hyrwyddo unrhyw wasanaeth a ddarperir gennych yn Gymraeg, a'i hysbysebu yn Gymraeg.

Safon 80: Pan fyddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth a ddarperir gennych yn Saesneg, rhaid i unrhyw ddogfen gyhoedduswydd neu wefan sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.

10 17 Safon ynghylch hunaniaeth gorfforaethol corff.

Safon 81: Pan fyddwch yn llunio ac yn cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

15 18 Safonau ynghylch cyrsiau a ddarperir gan gorff.

Safon 82: Pan fyddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i chi ei gynnig yn Gymraeg.

20 **Safon 83:** Pan fyddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, ac sydd wedi'i anelu'n benodol at bersonau sy'n 18 oed neu'n iau, rhaid i chi ei gynnig yn Gymraeg.

Safon 84: Pan fyddwch yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid i chi asesu a oes angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid i chi sicrhau bod yr asesiad hwnnw wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan.

25 19 Safon ynghylch systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

Safon 85: Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid i chi gyhoeddi'r neges honno yn Gymraeg, ac os yw'r neges yn cael ei chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r neges gael ei chyhoeddi yn Gymraeg yn gyntaf.

30

RHAN 2

SAFONAU SY'N DDIBYNNOL AR SAFONAU ERAILL - AMODAU ARBENNIG

- 19 Pan fydd hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un
 5 o'r safonau a restrir ar res benodol yng ngholofn 1 o Dabl 1, rhaid i'r hysbysiad cydymffurfio hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio (ym mha fodd bynnag y gwêl y Comisiynydd yn addas) â'r safon neu safonau ar y rhes honno yng ngholofn 2 (neu ag un neu ragor o safonau lle y nodir hynny).

TABL 1

<i>Rhes</i>	Colofn 1 <i>Prif safon</i>	Colofn 2 <i>Safon ddibynnol</i>
(1)	Ateb gohebiaeth Safon 1	Safon 7
(2)	Gohebu gydag un person Safon 2	Safon 6
(3)	Gohebu gyda phersonau ar yr un aelwyd Safon 3	Safon 6
(4)	Codi ymwybyddiaeth ynghylch gohebu yn Gymraeg Safon 7	Safon 1
(5)	Derbyn galwadau ffôn Safon 9	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 10 Safon 11
(6)	Derbyn galwadau ffôn Safonau 10 neu 11	Safon 9 Safon 14
(7)	Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaeth ffôn yn Gymraeg Safon 14	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 10 Safon 11

		a hefyd Safon 16, a Safon 17
(8)	Cyfarfodydd gydag un person Safon 24	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 24A Safon 24B
(9)	Cyfarfodydd gydag un person Safonau 24A neu 24B	Safon 24
(10)	Cyfarfodydd gydag un person Safon 26	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 26A Safon 26B
(11)	Cyfarfodydd gydag un person Safonau 26A neu 26B	Safon 26
(12)	Cyfarfodydd gyda mwy nag un person Safon 27	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 27A Safon 27B Safon 27C Safon 27D Safon 27E
(13)	Cyfarfodydd gyda mwy nag un person Safonau 27A, 27B, 27C, 27D neu 27E	Safon 27
(14)	Cyfarfodydd gyda mwy nag un person Safon 29	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 29A Safon 29B
(15)	Cyfarfodydd gyda mwy nag un person Safonau 29A neu 29B	Safon 29
(16)	Cyfarfodydd cyhoeddus Safon 30	Safon 33
(17)	Cyfarfodydd cyhoeddus Safon 33	Safon 30
(18)	Dogfennau Safonau 40, 41, 42, 43, 44, 45, neu 47	Safon 48 Safon 49

(19)	Gwefannau Safonau 52, 53 neu 54	Safon 55
(20)	Arwyddion Safonau 58 neu 59	Safon 60
(21)	Derbynfeydd Safon 61	Safon 65 Safon 66
(22)	Derbynfeydd Safon 62	Safon 62A
(23)	Derbynfeydd Safonau 63 neu 64	Safon 65
(24)	Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaeth Cymraeg mewn derbynfa Safon 65	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 61 Safon 63 Safon 64
(25)	Grantiau Safon 70	Safon 70A
(26)	Grantiau Safon 71 neu 72	Safon 70 Safon 70A
(27)	Tendrau Safon 75	Safon 75A
(28)	Tendrau Safon 76 neu 77	Safon 75 Safon 75A

RHAN 3

DEHONGLI'R SAFONAU

- 20 Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 fel a ganlyn.
- 5 21 Nid yw'r safonau a bennir ond yn gymwys i'r graddau y mae corff yn—
- (a) cyflenwi gwasanaethau i berson, neu
 - (b) yn delio ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau—
 - (i) i'r person arall hwnnw, neu
 - (ii) i drydydd person.
- 10 22 Nid oes dyletswydd ar gorff i gynhyrchu, i arddangos nac i anfon deunydd yn Gymraeg i'r graddau y mae deddfiad arall wedi pennu geiriad dogfen, arwydd neu ffurflen a fyddai'n groes i'r gofyniad hwnnw.
- 23 At ddiben y safonau—
- (a) nid yw gofyniad bod deunydd ysgrifenedig i gael ei gynhyrchu, ei arddangos neu ei anfon yn Gymraeg yn golygu mai dim ond yn Gymraeg y dylid cynhyrchu, arddangos neu ddanfon y deunydd, na bod angen cynhyrchu'r deunydd yn Gymraeg yn gyntaf (oni bai bod hynny'n cael ei nodi'n benodol);
 - (b) nid yw gofyniad bod gwasanaeth i gael ei ddarparu yn Gymraeg yn golygu mai dim ond yn Gymraeg y dylid darparu'r gwasanaeth hwnnw (oni bai bod hynny'n cael ei ddatgan yn benodol).
- 24 At ddibenion safonau 2, 3 a 21, mae corff yn gohebu gyda pherson neu'n ffonio person am y tro cyntaf pan fydd yn gohebu neu'n ffonio'r person am y tro cyntaf ar ôl y dyddiad y mae hysbysiad cydymffurfio wedi ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon.
- 25 25 Yn safonau 17 a 22, ystyr system ffôn "sydd wedi'i hawtomeiddio" yw system sy'n ateb galwadau ffôn ac yn arwain galwyr drwy drefn benodedig gyda neges wedi'i recordio sy'n gofyn, er enghraifft, i'r person bwysu gwahanol rifau ar y ffôn er mwyn dewis gwahanol opsiynau.
- 30 26 Pan fydd safon yn ymwneud â deunydd sydd i'w gynhyrchu yn Gymraeg (ac eithrio safonau 52 i 57 (gwefannau ac apiau)), mae cyfeiriad at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg pethau eraill, (ac yn ogystal â materion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
- (a) golwg y deunydd (er enghraifft o ran lliw a ffont unrhyw destun);
 - (b) maint y deunydd;
 - (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
- 35

- (d) amseriad cyhoeddi unrhyw ddeunydd;
- (e) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd;
- (f) dewisiadau ynghylch sut a phryd i ddyroddi, i gyhoeddi neu i arddangos y deunydd.

5 27 At ddiben safonau 52 i 54 (gwefannau ac apiau), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg pethau eraill, ac yn ogystal â materion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran –

10 (a) golwg unrhyw ddeunydd (er enghraifft o ran lliw, ffont, maint a fformat unrhyw destun);

 (b) amseriad cyhoeddi unrhyw ddeunydd ar y wefan neu app;

ond nid yw'n golygu bod yn rhaid i'r deunydd Cymraeg ymddangos ar yr un dudalen â'r deunydd Saesneg, nac ar dudalen y bydd person yn debygol o gael hyd iddi cyn y dudalen Saesneg wrth wneud chwiliad.

15 28 At ddiben safonau 40, 41, 44, 47 a 50, nid yw'r cyfeiriadau at ddogfen neu ddeunydd arall sydd ar gael i'r cyhoedd, neu sy'n cael ei gynhyrchu neu ei chynhyrchu at ddefnydd y cyhoedd, yn cynnwys dogfen neu ddeunydd sydd ond ar gael i'r cyhoedd yn rhinwedd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (p.36).

29 (1) Nid yw safonau 50, 50A a 50B yn gymwys i'r ffurflenni a restrir yn is-baragraff (3).

20 (2) At ddiben safon 2, nid oes dyletswydd ar gorff i anfon fersiwn Gymraeg o'r ffurflenni a restrir yn is-baragraff (3).

 (3) Y ffurflenni yw –

 (a) ffurflenni a ddefnyddir gan gorff i recriwtio cyflogaion (gweler safonau 135A, 136 a 137 ynghylch recriwtio);

25 (b) ffurflenni a ddefnyddir wrth wneud cais am gymorth grant gan gorff (gweler safonau 69 i 73 ynghylch ceisiadau am grant);

 (c) ffurflenni a ddefnyddir wrth wneud cais i gontractio gyda chorff (gweler safonau 74 i 78 ynghylch tendro am gontract).

30 Nid yw safonau 40, 47, 48 a 49 yn gymwys i ddeddfiad a baratoir gan gorff.

30 31 Nid yw safon 45 yn gymwys i reolau a bennir mewn deddfiad.

32 (1) Nid yw safonau 52 i 56 (gwefannau) yn gymwys i –

 (a) dogfennau y darperir dolen atynt ar wefan, deunydd hysbysebu ar wefan, na chlipiau fideo a sain ar wefan (gweler safonau 40 i 49 am ddarpariaeth benodol ynghylch dogfennau, a safon 37 ynghylch deunydd hysbysebu a gynhyrchir gan gorff);

35 (b) gwybodaeth a gyflwynir gan bersonau ar dudalen ryngweithiol a gyhoeddir ar wefan corff (er enghraifft, ar adran ar gyfer sylwadau, neu ar fforwm drafod).

33 (1) At ddiben safon 57, ystyr "ap" yw cymhwysiad meddalwedd sydd wedi ei gynllunio i gyflawni tasg benodol ar ddyfais electronig.

(2) Nid yw safon 57 yn gymwys i ddeunydd hysbysebu ar ap (gweler safon 37 ynghylch deunydd hysbysebu a gynhyrchir gan gorff).

At ddibenion safonau 62, 62A, 63, 64 a 66, ystyr "gwasanaeth derbynfa" yw gwasanaeth derbyn ymwelwyr a ddarperir mewn ardal ym mhrif swyddfeydd corff gan aelodau o staff sydd wedi eu cyflogi'n benodol at y pwrpas hwnnw.

At ddibenion safonau 7, 67 a 68 ystyr "hysbysiad swyddogol" yw unrhyw hysbysiad y mae corff yn ei gyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i bersonau am weithgareddau cyflenwi gwasanaethau neu newidiadau i weithgareddau cyflenwi gwasanaethau'r corff, ond nid yw'n cynnwys hysbysiadau swyddogol a ragnodir mewn deddfiad.

(1) At ddiben safon 81, mae'r cyfeiriad at gorff yn cyflwyno ei "hunaniaeth gorfforaethol" yn cynnwys, ymysg pethau eraill, y ffordd y mae corff yn ei gyflwyno ei hun drwy ddatganiadau gweledol, yr enw neu'r enwau a ddefnyddir gan gorff, a'r brandio a'r sloganau a ddefnyddir gan gorff (er enghraifft, brandio a sloganau a roddir ar bapur ysgrifennu).

(2) Nid yw safon 81 yn berthnasol i'r graddau y mae deddfiad yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ddefnyddio enw cyfreithiol.

At ddibenion safonau 82, 83 ac 84, ystyr "cwrs addysg" yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei ddarparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chysiriau sy'n cael eu ddarparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw ddeddfiad.

At ddibenion y safonau, ystyr "deddfiad" yw deddfiad (pa bryd bynnag y cafodd ei ddeddfu neu ei wneud) sydd wedi ei gynnwys mewn unrhyw un o'r canlynol, neu mewn offeryn a wnaed o dan un o'r canlynol –

(a) Deddf Seneddol;

(b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

ATODLEN 2
(Rheoliad 2(2))

SAFONAU LLUNIO POLISI

RHAN 1

Y SAFONAU

5

- 1 Safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg.

10 **Safon 86:** Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n newid polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi asesu pa effeithiau, os o gwbl (boed hynny'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi'n ei gael ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

15 **Safon 87:** Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n newid polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu newid y polisi) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

20 **Safon 88:** Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n newid polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu newid y polisi) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

25

Safon 89: Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno drafod a holi barn ynghylch yr effeithiau (boed hynny'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn ei gael ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

30

Safon 90: Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno drafod a holi barn ynghylch sut y gellid gwneud neu addasu'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

35

Safon 91: *Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno drafod a holi barn ynghylch sut y gellid gwneud neu addasu'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –*

- (a) *cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
- (b) *peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Safon 92: *Rhaid i chi gynhyrchu a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, lle bo'n briodol, ddiwygio polisi sydd gennych eisoes) sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried y materion canlynol pan fyddwch yn gwneud penderfyniad ynghylch dyfarnu grant –*

- (a) *pa effeithiau, os o gwbl (a boed yn bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn ei gael ar –*

- (i) *cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
 - (ii) *peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;*

- (b) *sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad ynghylch dyfarnu grant (er enghraifft, drwy osod amodau penodol) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –*

- (i) *cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
 - (ii) *peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;*

- (c) *sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad ynghylch dyfarnu grant (er enghraifft, drwy osod amodau penodol) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar –*

- (i) *cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
 - (ii) *peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;*

- (d) *a oes angen i chi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar –*

- (i) *cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, neu*
 - (ii) *peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Safon 93: *Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil i'ch cynorthwyo i gymryd penderfyniad polisi rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a boed yn bositif neu'n andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn ei gael ar –*

- (a) *cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
- (b) *peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Safon 94: *Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil i'ch cynorthwyo i gymryd penderfyniad polisi, rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –*

- (a) *cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
- (b) *peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Safon 95: *Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil i'ch cynorthwyo i gymryd penderfyniad polisi, rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –*

- 5
- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

RHAN 2

DEHONGLI'R SAFONAU

10

2 Ystyr "penderfyniad polisi" yn Rhan 1 yw unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, ac mae hynny'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch –

15

- (a) cynnwys deddfwriaeth;
- (b) y defnydd o bwerau statudol;
- (c) cynnwys datganiadau polisi;
- (d) strategaethau neu gynlluniau strategol;
- (e) strwythurau mewnol.

20

ATODLEN 3
(Rheoliad 2(3))

SAFONAU GWEITHREDU

5 1 Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.

Safon 96: Rhaid i chi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid i chi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.

10 **Safon 97:** Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i berson, rhaid i chi ofyn i'r person hwnnw a yw'n dymuno i'w gontract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid i chi ddarparu'r contract yn Gymraeg.

Safon 98: Rhaid i chi –

15 (a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno derbyn gohebiaeth bapur sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol ac sydd ynglŷn â'i gyflogaeth yn Gymraeg, a

(b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, rhaid i chi ddarparu unrhyw ohebiaeth o'r fath a gaiff ei anfon at y cyflogai hwnnw yn Gymraeg.

Safon 99: Rhaid i chi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno derbyn dogfennau sy'n amlinellu gofynion neu anghenion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid i chi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.

20 **Safon 100:** Rhaid i chi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno derbyn dogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid i chi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.

25 **Safon 101:** Rhaid i chi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno derbyn dogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid i chi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.

Safon 102: Rhaid i chi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno derbyn ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi –

30 (a) gwylliau,

(b) absenoldebau, ac

(c) oriau gwaith hyblyg;

yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid i chi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg.

Safon 103: Pan fyddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid i chi ei gyhoeddi yn Gymraeg.

35 **Safon 104:** Pan fyddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid i chi ei gyhoeddi yn Gymraeg.

Safon 105: Pan fyddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid i chi ei gyhoeddi yn Gymraeg.

- Safon 106:** *Pan fyddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid i chi ei gyhoeddi yn Gymraeg.*
- Safon 107:** *Pan fyddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid i chi ei gyhoeddi yn Gymraeg.*
- 5 **Safon 108:** *Pan fyddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid i chi ei gyhoeddi yn Gymraeg.*
- Safon 109:** *Pan fyddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid i chi ei gyhoeddi yn Gymraeg.*
- 10 2 Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff.
- Safon 110:** *Rhaid i chi ganiatáu i bob aelod o'ch staff i –*
(a) gwneud cwynion atoch yn Gymraeg, a
(b) ymateb i unrhyw gŵyn sy'n ymwneud ag ef neu â hi yn Gymraeg.
- 15 **Safon 110A:** *Rhaid i chi hysbysu pob aelod o staff bod modd –*
(a) gwneud cwyn atoch yn Gymraeg, a
(b) ymateb i gŵyn sy'n ymwneud ag ef neu â hi yn Gymraeg;
a rhaid i chi hefyd ddatgan hynny mewn unrhyw ddogfen sydd gennych i nodi'ch trefniadau ar gyfer cwynion.
- 20 **Safon 111:** *Pan fyddwch yn derbyn cwyn gan aelod o staff neu'n derbyn cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod staff hwnnw, rhaid i chi –*
(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, a
(b) os yw'r aelod staff yn dymuno cyfarfod yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).
- 25 **Safon 112:** *Pan fyddwch yn derbyn cwyn gan aelod o staff neu'n derbyn cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod staff hwnnw –*
(a) rhaid i chi ofyn i'r aelod o staff os hoffai ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a
(b) os yw'r aelod staff yn dymuno gwneud hynny, rhaid i chi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y pwrpas hwnnw (os nad yw'n bosib cynnal y cyfarfod yn Gymraeg fel arall).
- 30 **Safon 113:** *Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn cwyn a wnaed gan yr aelod hwnnw, neu yn dilyn cwyn a wnaed ynghylch yr aelod hwnnw, rhaid i chi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff –*
(a) wedi gwneud cwyn yn Gymraeg,
(b) wedi ymateb i gŵyn yn ei erbyn yn Gymraeg,
(c) wedi gofyn am gyfarfod ynglŷn â chŵyn yn Gymraeg, neu
(d) wedi gofyn am gael siarad Cymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â chŵyn.
- 35

3 Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.

Safon 114: Rhaid i chi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn drwy broses ddisgyblu fewnol.

5 **Safon 114A:** Pan fyddwch wedi dechrau proses ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhaid i chi hysbysu'r aelod hwnnw fod modd iddo ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn; a rhaid i chi hefyd ddatgan yr hawl honno (mewn perthynas â staff yn gyffredinol) mewn unrhyw ddogfen sydd gennych i nodi'ch trefniadau ar gyfer disgyblu staff.

10 **Safon 115:** Pan fyddwch yn trefnu cyfarfod gydag aelod o staff ynghylch achos disgyblu a gyflwynwyd yn ei erbyn, rhaid i chi –

(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, a

(b) os yw'r aelod staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).

15 **Safon 116:** Pan fyddwch yn trefnu cyfarfod gydag aelod o staff ynghylch achos disgyblu a gyflwynwyd yn ei erbyn, rhaid i chi –

(a) gofyn i'r aelod o staff a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a

(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno gwneud hynny, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y pwrpas hwnnw (os nad yw'n bosib cynnal y cyfarfod yn Gymraeg fel arall).

20

Safon 117: Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn achos disgyblu, rhaid i chi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff –

(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,

(b) wedi gofyn am gyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn Gymraeg, neu

25

(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.

4 Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd.

30

Safon 118: Rhaid i chi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch aelodau staff, a darparu rhyngwynebau Gymraeg ar gyfer meddalwedd (lle bo rhyngwyneb ar gael).

35 **Safon 119:** Rhaid i chi sicrhau –

(a) bod testun pob tudalen ar eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg,

(b) bod pob tudalen sydd ar gael yn Gymraeg ar eich mewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac

(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnrwyd.

40

- Safon 120:** Rhaid i chi sicrhau –
- (a) bod testun tudalen gartref eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg,
 - (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar dudalen gartref eich mewnrwyd (neu, lle'n berthnasol, bod tudalen gartref Gymraeg eich mewnrwyd) yn gweithredu'n llawn, ac
 - (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran tudalen gartref eich mewnrwyd.
- Safon 121:** Bob tro y byddwch yn cyhoeddi tudalen newydd neu'n diwygio tudalen ar eich mewnrwyd, rhaid i chi sicrhau –
- (a) bod testun y dudalen honno ar gael yn Gymraeg,
 - (b) bod unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dudalen yn gweithredu'n llawn, ac
 - (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran testun y dudalen honno.
- Safon 122** Pan fydd gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid i chi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.
- Safon 123:** Rhaid i chi neilltuo a chynnal tudalen neu dudalennau ar eich mewnrwyd ar gyfer darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hyrwyddo'r Gymraeg ac i gynorthwyo aelodau o'ch staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Safon 124:** Rhaid i chi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnrwyd yn Gymraeg.
- 5 Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.
- Safon 125:** Rhaid i chi asesu sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion.
- Safon 126:** Rhaid i chi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd canlynol, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg –
- (a) recriwtio a chyfweld;
 - (b) rheoli perfformiad;
 - (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
 - (d) ymsefydlu;
 - (e) delio â'r cyhoedd;
 - (f) iechyd a diogelwch.
- Safon 127:** Rhaid i chi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn –
- (a) cyfarfodydd;
 - (b) cyfweiliadau;
 - (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.

Safon 128: Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith –

(a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a

(b) i gyflogeion sy'n gyfrifol am reoli pobl gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

5 **Safon 129:** Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd i gyflogeion sydd wedi cwblhau cwrs o wersi Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.

Safon 130: Rhaid i chi ddarparu hyfforddiant i'ch cyflogeion er mwyn iddynt feithrin –

10 (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);

(b) dealltwriaeth o'r gofynion sydd arnoch i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;

(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

15 **Safon 131:** Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid i chi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Safon 132: Rhaid i chi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer negeseuon e-bost eich cyflogeion sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.

20 **Safon 133:** Rhaid i chi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i osod fersiwn Gymraeg o unrhyw neges e-bost sy'n nodi nad ydynt ar gael i ateb negeseuon.

6 Safonau ynghylch recriwtio gan gorff.

25 **Safon 134:** Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid i chi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, ac os oes angen i'r ymgeisydd feddu ar sgiliau yn y Gymraeg rhaid i chi –

(a) nodi hynny wrth hysbysebu'r swydd, a

(b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.

30 **Safon 135:** Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid i chi ddatgan bod croeso i unigolion wneud cais am swydd yn Gymraeg ac na fydd cais yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais yn Saesneg.

Safon 135A: Rhaid i chi ddarparu'r dogfennau canlynol yn Gymraeg wrth recriwtio –

(a) ffurflenni cais am swydd;

(b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swydd;

35 (c) gwybodaeth am eich proses gyfweld, ac am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swydd;

(d) swydd-ddisgrifiadau;

. a rhaid i chi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.

Safon 135B: Rhaid i chi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau, ac o ran amseriad hysbysu ymgeiswyr ynghylch penderfyniadau).

Safon 136: Rhaid i chi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swydd yn rhoi lle i ymgeisydd nodi ei fod yn dymuno cael cyfweiliad neu'r asesiad yn Gymraeg ac, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid i chi gynnal unrhyw gyfweiliad neu asesiad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).

Safon 137: Rhaid i chi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swydd –

(a) yn rhoi lle i'r ymgeisydd nodi ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu asesiad, a

(b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y pwrpas hwnnw os oes angen;

ac, os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid i chi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad neu asesiad (os nad yw'n bosibl cynnal y cyfweiliad neu'r asesiad yn Gymraeg fel arall).

Safon 138: Pan fyddwch wedi gwneud penderfyniad ynghylch cais am swydd a wnaed yn Gymraeg rhaid i chi roi gwybod i'r ymgeisydd beth yw'r penderfyniad yn Gymraeg.

7 Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.

Safon 139: Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys unrhyw arwydd dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (boed ar arwydd sy'n arddangos testun Saesneg neu ar arwydd ar wahân).

Safon 139A: Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys unrhyw arwydd dros dro), a bod yr un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i chi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg (p'un a yw'r testun Cymraeg ar yr un arwydd â'r testun Saesneg ai peidio).

Safon 140: Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys unrhyw arwydd dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cynnwys yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i chi osod y testun Cymraeg fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safon 141: Rhaid i chi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

8 Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Safon 142: Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i chi wneud y cyhoeddiad yn Gymraeg yn gyntaf.

RHAN 2

SAFONAU SY'N DDIBYNNOL AR SAFONAU ARALL - AMODAU ARBENNIG

- 9 Pan fydd hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un
 5 o'r safonau a restrir yng ngholofn 1 o'r tabl (ar res benodol), rhaid i'r hysbysiad cydymffurfio hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio (ym mha fodd bynnag y gwêl y Comisiynydd yn addas) â'r safon neu'r safonau ar y rhes honno yng ngholofn 2.

TABL 1

10

<i>Rhes</i>	Colofn 1 <i>Prif safon</i>	Colofn 2 <i>Safon ddibynnol</i>
(1)	Gweithdrefnau cwyno Safon 110	Safon 110A
(2)	Gweithdrefnau cwyno Safon 110A	Safon 110
(3)	Disgyblu aelodau staff Safon 114	Safon 114A
(4)	Disgyblu aelodau staff Safon 114A	Safon 114
(5)	Y fewnrwyd Safonau 119, 120 neu 121	Safon 122
(6)	Hyfforddi aelodau staff Safon 129	Safon 128
(7)	Recriwtio Safon 135	Safon 135A Safon 135B Safon 138

	Arwyddion mewnol	
(8)	139	Safon 139A Safon 141
(9)	Arwyddion mewnol	
	140	Safon 139A

RHAN 3

DEHONGLI'R SAFONAU

- 10 Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 fel a ganlyn.
- 5 11 At ddibenion safonau 119, 120 a 121 (mewnwyd corff), mae cyfeiriad at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg pethau eraill (ac yn ogystal â materion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran —
- 10 (a) golwg y deunydd (er enghraifft o ran lliw, ffont, maint a fformat unrhyw destun);
- (b) amseriad cyhoeddi'r deunydd ar y fewnwyd;
- ond nid yw'n golygu bod yn rhaid i'r deunydd Cymraeg ymddangos ar yr un dudalen â'r deunydd Saesneg, nac ar dudalen a fydd yn debygol o agor cyn y dudalen Saesneg gyfatebol.
- 12 At ddibenion safon 135A (recriwtio) a safon 139A (arwyddion mewnol), mae cyfeiriad at
- 15 beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg pethau eraill (ac yn ogystal â materion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran —
- (a) golwg y deunydd (er enghraifft o ran lliw a ffont unrhyw destun);
- (b) maint y deunydd;
- 20 (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
- (d) amseriad cyhoeddi'r deunydd;
- (e) fformat cyhoeddi'r deunydd;
- (f) dewisiadau ynghylch sut a phryd i ddyroddi, i gyhoeddi neu i arddangos y deunydd.

ATODLEN 4
(Rheoliad 2(4))

SAFON HYBU

5 Safonau ynghylch corff yn hybu'r Gymraeg.

10 **Safon 143:** O fewn 2 flynedd rhaid i chi gynhyrchu, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal, a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) –

(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y 5 mlynedd o dan sylw, a

15 (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;
a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn pum mlynedd i ddyddiad ei chyhoeddi (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).

Safon 144: Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 143 rhaid i chi –

20 (a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a

(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol –

(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;

25 (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

ATODLEN 5
(Rheoliad 2(5))

SAFONAU CADW COFNODION

RHAN 1

Y SAFONAU

5

1 Safonau ynghylch cadw cofnodion gan gorff.

10

Safon 145: Rhaid i chi gadw copi o bob asesiad a wneir gennych ynghylch yr angen am sgiliau yn y Gymraeg mewn perthynas â phob swydd newydd neu swydd wag.

Safon 146: Rhaid i chi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o nifer y cyflogeion sy'n mynychu cyrsiau hyfforddiant a gynigir gennych yn y Gymraeg

Safon 147: Rhaid i chi gadw cofnod o'r camau a gymerir gennych i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy mewn perthynas â llunio polisi.

15

Safon 148: Rhaid i chi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei derbyn ynghylch y Gymraeg (p'un a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy ai peidio).

Safon 149: Rhaid i chi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei derbyn ynghylch eich cydymffurfiaeth â'r safonau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy.

20

Safon 150: Rhaid i chi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o nifer y galwadau i'ch prif rif ffôn (neu brif rifau ffôn), i unrhyw linellau cymorth a chanolfannau galwadau, a wnaed gan bersonau a ofynnodd am wasanaeth Cymraeg.

Safon 151: Rhaid i chi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o'r nifer o gwynion a dderbyniwyd gennych ynglŷn â'ch cydymffurfiaeth â safonau.

25

Safon 152: Rhaid i chi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o'r nifer o bersonau a ymatebodd i ddweud eu bod yn dymuno derbyn galwadau ffôn yn Gymraeg yn dilyn cynnig a wnaed gennych yn unol â safon 21 (i'r graddau y mae dyletswydd arnoch i gydymffurfio â'r safon honno).

30

Safon 153: Rhaid i chi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o'r nifer o bersonau a ymatebodd i ddweud eu bod yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg yn dilyn cynnig a wnaed gennych yn unol â safon 2 neu safon 3 (i'r graddau y mae dyletswydd arnoch i gydymffurfio â'r safonau hynny).

35

Safon 154: Rhaid i chi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o'r nifer o bersonau a ymatebodd i ddweud eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod yn dilyn cynnig a wnaed gennych yn unol â safonau 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29 neu 32 (i'r graddau y mae dyletswydd arnoch i gydymffurfio â'r safonau hynny).

40

Safon 155: Rhaid i chi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 124), o'r nifer o gyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, lle bo hynny'n wybyddus i chi, cofnod o lefel sgiliau'r cyfogeion hynny yn y Gymraeg.

Safon 156: Rhaid i chi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol o, –

- (a) nifer y swyddi newydd lle nodwyd (yn unol â safon 134) bod angen sgiliau yn y Gymraeg, a
- (b) canran y swyddi (yn nhermau nifer y swyddi a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn ariannol), lle nodwyd bod angen y sgiliau hynny.

Safon 157: Rhaid i chi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o –

- (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigwyd gennych yn y Gymraeg (yn unol â safon 126), a
- (b) lle cafodd fersiwn Gymraeg o gwrs ei gynnig gennych yn unol â safon 126, y ganran (yn nhermau cyfanswm y staff a fynychodd y cwrs) a fynychodd fersiwn Gymraeg y cwrs.

RHAN 2

DEHONGLI'R SAFONAU

Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 fel a ganlyn.

At ddibenion safonau 146, 150, 151, 152, 153, 154, 155, 156 a 157 –

- (a) y tro cyntaf y bydd yn ofynnol i gorff gydymffurfio â'r safon, ystyr "blwyddyn ariannol" yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'n ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon, ac sy'n dod i ben y 31 Mawrth canlynol;
- (b) yn ddarostyngedig i hynny, ystyr "blwyddyn ariannol" yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

ATODLEN 6
(Rheoliad 2(6))

SAFONAU SY'N YMDRIN Â MATERION ATODOL

RHAN 1

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

1 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i safonau cyflenwi gwasanaethau.

Safon 158: Rhaid i chi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy, a'r graddau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael i'r cyhoedd –

(a) ar eich gwefan, a

(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

2 Corff yn cyhoeddi ei weithdrefn gwyno.

Safon 159: Rhaid i chi –

(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n ymdrin â'r materion canlynol –

(i) sut y byddwch yn delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy, a

(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,

(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac

(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael i'r cyhoedd ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

3 Corff yn cyhoeddi trefniadau goruchwyllo, hybu ac ati.

Safon 160: Rhaid i chi –

(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer –

(i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy,

(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a

(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny,

(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac

(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael i'r cyhoedd ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

4 Corff yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â safonau cyflenwi gwasanaethau.

- Safon 161:**
- (1) Rhaid i chi lunio adroddiad, yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r modd y gwnaethoch gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oedd yn ofynnol i chi i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno ("adroddiad blynyddol").
 - (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol (lle'n berthnasol, i'r graddau y mae dyletswydd arnoch i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)
—
 - (a) nifer y personau a ymatebodd i ddweud eu bod yn dymuno derbyn galwadau ffôn yn Gymraeg yn dilyn cynigion a wnaed gennych yn unol â safon 21 yn ystod y flwyddyn;
 - (b) nifer y personau a ymatebodd i ddweud eu bod yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg yn dilyn cynigion a wnaed gennych yn unol â safon 2 neu safon 3 yn ystod y flwyddyn;
 - (c) nifer y personau a ymatebodd i ddweud eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod yn dilyn cynigion a wnaed gennych yn unol â safonau 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29 neu 32 yn ystod y flwyddyn;
 - (d) nifer y cwynion a dderbyniwyd gennych yn ystod y flwyddyn oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oedd yn ofynnol i chi gydymffurfio â hwy.
 - (3) Rhaid i chi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.
 - (4) Rhaid i chi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod adroddiad blynyddol wedi'i gyhoeddi gennych.
 - (5) Rhaid i chi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael —
 - (a) ar eich gwefan, a
 - (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

5 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r modd y mae'n bwriadu cydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau.

- Safon 162:** Rhaid i chi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy.

6 Corff yn darparu gwybodaeth i'r Comisiynydd.

- Safon 163:** Rhaid i chi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd y Comisiynydd yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy.

RHAN 2

SAFONAU LLUNIO POLISI

5 7 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i safonau llunio polisi.

Safon 164: Rhaid i chi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy, a'r graddau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael i'r cyhoedd –

- (a) ar eich gwefan, a
10 (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd yn ystod sy'n agored i'r cyhoedd.

8 Corff yn cyhoeddi gweithdrefn gwyno.

Safon 165: Rhaid i chi –

- (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n ymdrin â'r materion canlynol –
15 (i) sut y byddwch yn delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy, a
(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,
(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac
20 (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael i'r cyhoedd, ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

9 Corff yn cyhoeddi trefniadau goruchwyllo, hybu ac ati.

25 **Safon 166:** Rhaid i chi –

- (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy,
(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac
30 (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael i'r cyhoedd ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

10 Corff yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â safonau llunio polisi.

Safon 167: (1) Rhaid i chi lunio adroddiad, yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r modd y gwnaethoch gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oedd yn ofynnol i chi i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno ("adroddiad blynyddol").
35

- (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbyniwyd gennych yn ystod y flwyddyn oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi yr oedd yn ofynnol i chi gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.
- 5 (3) Rhaid i chi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.
- (4) Rhaid i chi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod adroddiad blynyddol wedi'i gyhoeddi gennych.
- (5) Rhaid i chi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael –
- 10 (a) ar eich gwefan, a
- (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd .
- 11 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r modd y mae'n bwriadu cydymffurfio â safonau llunio polisi.
- 15 **Safon 168:** Rhaid i chi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy.
- 12 Corff yn darparu gwybodaeth i'r Comisiynydd.
- Safon 169:** Rhaid i chi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd y Comisiynydd yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy.
- 20

RHAN 3

SAFONAU GWEITHREDU

- 25
- 13 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i safonau gweithredu.
- Safon 170:** Rhaid i chi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy, a'r graddau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael i'r cyhoedd –
- 30 (a) ar eich gwefan, a
- (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd .
- 14 Corff yn cyhoeddi gweithdrefn gwyno.
- Safon 171:** Rhaid i chi –
- 35 (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n ymdrin â'r materion canlynol –
- (i) sut y byddwch yn delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau gweithredu y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy, a

- (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a
- (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrwyd.

5 15 Corff yn cyhoeddi trefniadau goruchwyllo, hybu ac ati.

Safon 172: Rhaid i chi –

- (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer –
 - (i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy,
 - (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a
 - (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a
- (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnrwyd.

15
16 Corff yn llunio adroddiad blynyddol ynglŷn â safonau gweithredu.

- Safon 173:**
- (1) Rhaid i chi lunio adroddiad, yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r modd y gwnaethoch gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oedd yn ofynnol i chi i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno ("adroddiad blynyddol").
 - (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol (lle'n berthnasol, i'r graddau y mae dyletswydd arnoch i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)
 -
 - (a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 155);
 - (b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 157);
 - (c) lle bo fersiwn Gymraeg o gwrs wedi cael ei gynnig gennych yn ystod y flwyddyn oedd yn cyfateb i gwrs a gafodd ei gynnig gennych yn Saesneg, y ganran o aelodau staff (yn nhermau cyfanswm yr aelodau staff a fynychodd y cwrs) a fynychodd fersiwn Gymraeg y cwrs (ar sail cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 157).
 - (d) nifer y swyddi newydd a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn lle y nodwyd bod angen sgiliau yn y Gymraeg, a chanran y swyddi (yn nhermau nifer y swyddi a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn ariannol), lle nodwyd bod angen y sgiliau hynny (ar sail cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 156).
 - (e) nifer y cwynion a dderbyniwyd gennych yn ystod y flwyddyn oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau gweithredu yr oedd yn ofynnol i chi gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

(3) Rhaid i chi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid i chi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod adroddiad blynyddol wedi'i gyhoeddi gennych.

(5) Rhaid i chi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael –

(a) ar eich gwefan, a

(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

17 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r modd y mae'n bwriadu cydymffurfio â safonau gweithredu.

Safon 174: Rhaid i chi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy.

18 Corff yn darparu gwybodaeth i'r Comisiynydd.

Safon 175: Rhaid i chi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd y Comisiynydd yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau gweithredu y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy.

RHAN 4

SAFONAU HYBU

19 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i safonau hybu.

Safon 176: Rhaid i chi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau hybu y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy, a'r graddau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael i'r cyhoedd –

(a) ar eich gwefan, a

(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

20 Corff yn darparu gwybodaeth i'r Comisiynydd.

Safon 177: Rhaid i chi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd y Comisiynydd yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau hybu y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy.

RHAN 5

SAFONAU CADW COFNODION

21 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i safonau cadw cofnodion.

5 **Safon 178:** Rhaid i chi sicrhau bod dofen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â hwy, a'r graddau y mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael i'r cyhoedd –

(a) ar eich gwefan, a

(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

10

22 Corff yn rhoi gwybodaeth i'r Comisiynydd.

Safon 179: Rhaid i chi ddarparu unrhyw gofnodion a gedwir gennych yn unol â'r safonau cadw cofnodion y mae'n ofynnol y chi i gydymffurfio â hwy i'r Comisiynydd os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny.

15

RHAN 6

DEHONGLI'R SAFONAU

23 Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhannau 1 i 5 fel a ganlyn.

20 24 At ddibenion safonau 161, 167 ac 173 –

(a) y tro cyntaf y bydd yn ofynnol i gorff gydymffurfio â'r safon, ystyr "blwyddyn ariannol" yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'n ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon, ac sy'n dod i ben y 31 Mawrth canlynol;

25 (b) yn ddarostyngedig i hynny, ystyr "blwyddyn ariannol" yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

RHAN 7

DARPARIAETH ATODOL

30 25 Gweithdrefnau cwyno

(1) Pan fydd corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau canlynol caiff gydymffurfio â hwy mewn un weithdrefn gwyno.

(2) Y safonau yw –

(a) safon 158;

35 (b) safon 164;

(c) safon 170.

26 Trefniadau goruchwyllo

(1) Pan fydd corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau canlynol caiff gydymffurfio â hwy drwy baratoi un set o drefniadau goruchwyllo.

(2) Y safonau yw –

(a) safon 159;

(b) safon 165;

(c) safon 171.

27 Adroddiadau blynyddol

(1) Pan fydd corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau canlynol caiff gydymffurfio â hwy drwy gynnwys yr wybodaeth angenrheidiol mewn un adroddiad blynyddol o'r enw "Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg".

(2) Y safonau yw –

(a) safon 161;

(b) safon 167;

(c) safon 173.

28 Rhoi cyhoeddusrwydd i'r modd y mae corff yn bwriadu cydymffurfio â safonau

(1) Pan fydd corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau canlynol caiff gydymffurfio â hwy mewn un ddogfen.

(2) Y safonau yw –

(a) safon 162;

(b) safon 168;

(c) safon 174.